

DATGANIAD YN Y CYFRYNGAU I YSGOLION A CHOLEGAU

Awst 2013


Cynnydd pellach yn y niferoedd sy'n sefyll Lefel A mewn Mathemateg Bellach yng Nghymru

Mae rheswm i ddathlu eto eleni yng Nghymru yn sgîl y canlyniadau lefel A Mathemateg Bellach. Mae'r canlyniadau Mathemateg a Mathemateg Bellach fel ei gilydd wedi adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn y niferoedd y llynedd, gyda chynnydd pellach:

- Mae niferoedd lefel A Mathemateg Bellach wedi codi o 380 i 416, cynnydd o 9.4%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg Bellach wedi codi o 339 i 369, cynnydd o 8.8%.
- Mae niferoedd lefel A Mathemateg wedi codi o 3643 i 3713, cynnydd o 1.9%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg wedi codi o 4647 i 4796, cynnydd o 5.4%.

Cododd cyfran y myfyrwyr Mathemateg a safodd lefel A Mathemateg Bellach i 11.2%, sef y canlyniad uchaf erioed ar gyfer Mathemateg Bellach yng Nghymru. Ers lansio'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach yng Nghymru yn 2010, mae'r ganran wedi codi'n gyson bob blwyddyn, fel y dengys y graff isod. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Bellach yng Nghymru wedi codi mwy na 70%.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr Mathemateg Lefel A a safodd Lefel A Mathemateg Bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2003
(<http://www.icq.org.uk/examination-results/a-levels>)



Mae astudio Mathemateg Bellach yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd â dawn fathemategol adeiladu sylfaen gadarnhach, gan eu helpu i gyflawni eu potensial yn eu haddysg ddiweddarach, ac mae hynny'n arwain yn aml at yrfaedd mewn gwyddoniaeth, technoleg, economeg, gwyddoniaeth actwaraidd a chyllid. Amlygodd Grŵp Prifysgolion Russell bwysigrwydd Lefel AS/A Mathemateg Bellach ar gyfer llawer o gyrsiau prifysgol yn eu canllaw i ddewis pynciau ôl-16 <http://russellgroup.org/InformedChoices-latest.pdf>

Cychwynnodd peilot Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach (FMSP) Cymru ym mis Hydref 2010, gan gwmpasu Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro. O fis Ebrill 2013 cynhwyswyd Rhondda Cynon Taf, Ynys Môn a rhannau eraill o Ogledd Cymru yn y prosiect yn ogystal.

Mae'r Rhaglen yn cynnig tiwtora a mynediad at adnoddau ar-lein i gynnal y broses o addysgu Mathemateg Bellach. Un o elfennau allweddol y Rhaglen yw amrywiaeth o ddigwyddiadau adolygu ac astudio a gynhelir wyneb yn wyneb ac ar-lein. Byddai 97% o'r myfyrwyr a aeth i sesiynau Adolygu Pur a Chymwysedig Pellach wyneb yn wyneb yn 2012/13 yn eu hargymell i fyfyrwyr eraill. Ymhlith sylwadau'r myfyrwyr roedd: "Help mawr i bob myfyriwr", "Amgylchedd difyr", "...defnyddiol iawn ar gyfer adolygu a hyd yn oed ar gyfer dysgu pethau newydd", "Paratoad ardderchog".

Cefnogir y Rhaglen gan yr adrannau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) mewn prifysgolion yng Nghymru a Lloegr <http://www.furthermaths.org.uk/universities.php>.

Gwahoddir yr holl ysgolion uwchradd a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru i gofrestru gyda'r Rhaglen <http://www.furthermaths.org.uk/Eregister.php> a mynegi eu diddordeb mewn cymorth tiwtora trwy gysylltu â Chydlynnydd y Rhaglen, Sofya Lyakhova, drwy ffonio 01792 602793.

Nodiadau i Olygyddion

1. Rheolir FMSP Cymru gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS), mewn partneriaeth â Mathemateg mewn Addysg a Diwydiant (MEI, www.mei.org.uk). Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.
2. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch rhaglen gymorth Mathemateg Bellach Cymru ar gael yn: <http://www.furthermaths.org.uk/centre/?centre=wales>
3. Partneriaeth gydweithredol yw Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS) rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nod WIMCS yw gwella statws mathemateg a chyfrifiadura yng Nghymru, meithrin cysylltiadau â diwydiant, masnach a busnes, cynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol a darparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gwyddorau Mathemategol (www.wimcs.ac.uk).
4. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gweinyddydd FMSP Cymru drwy ffonio 01792 606609 neu e-bostio adminwales@furthermaths.org.uk